# Canllaw Mynediad Cyfleusterau Hamdden i Ddefnyddwyr Anabl



Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol
County Borough Council

Pawb Gyda'i Gilydd
All in this together

ffit conwy

Disability Sport Wales
Chwaraeon Anabledd Cymru

# Cerdyn Ffit i Bobl Anabl

Mae'r Cerdyn Ffit i Bobl Anabl yn gynllun mynediad am ddim i bobl anabl yng Nghonwy. Mae'r cerdyn yn bwriadu rhoi sylw a lleddfu rhai o'r rhwystrau a brofir ac felly fe hyrwyddir cyfleoedd yn gadarnhaol i bobl anabl gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol.

Mae'r manteision sy'n deillio o hyn yn cynnwys nofio am ddim yn ystod oriau nofio cyhoeddus, mynediad am ddim i unrhyw Ystafell Ffitrwydd CBSC (mae angen sesiwn gyflwyno ymlaen llaw am gost), mynediad am ddim i unrhyw ddosbarth ffitrwydd a mynediad am ddim i hanner cwrt ar gyfer Sboncen, Badminton a Thennis Bwrdd.

I chi gael Cerdyn Ffit Anabledd RHAID i chi fod yn derbyn naill ai lwfans byw i'r anabl, taliad annibyniaeth personol, lwfans gweini neu gredyd treth i bobl anabl. (Nodwch: mae ffi weinyddol o £13.00 yn berthnasol.)

**Gwybodaeth gyswllt**
Ffoniwch neu e-bostiwch eich canolfan hamdden leol am fwy o wybodaeth



# Canllaw Mynediad

Croeso i'r canllaw mynediad ar gyfer cyfleusterau hamdden sy'n cael eu rhedeg gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Rydym yn ymroddedig i ddarparu cyfleoedd mewn ffitrwydd, chwaraeon, a hamdden i bawb ar draws ein cyfleusterau. Bydd hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am hygyrchedd o fewn cyfleusterau unigol a manylion cyswllt os oes angen unrhyw wybodaeth ychwanegol.


Mae Conwy yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd i bobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl, sydd eisiau byw bywydau iach a chymryd rhan mewn cyfleoedd chwaraeon. Wedi'u cynnwys yn y canllaw hwn ceir gwybodaeth am Gerdyn Ffit Conwy i bobl anabl a chyfleoedd chwarae penodol a chynhwysol i bobl anabl..

| | | |
|---|---|---|
| Parcio Hygyrch | Drysau awtomatig | Desg Dderbynfa Isel |
| Dolen glyw | Arwyddion cyffyrddol | Lifft |
| Toiledau hygyrch | Ystafelloedd newid hygyrch | Ystafell Newid Hygyrch i Deuluoedd |
| Loceri hygyrch | Teclyn codi yn y pwll nofio gyda chymorth staff wedi'u hyfforddi | Llawr pwll nofio y gellir ei symud |
| Neuadd Chwaraeon / Meysydd Dan Do Hygyrch | Cyrtiau tennis hygyrch | Campfa hygyrch |
| Caffi / Lluniaeth Hygyrch | Peiriannau gwerthu bwyd a diod | |

# Chwaraeon i bobl anabl yng Nghonwy

Mae gan Gonwy amrywiaeth eang a rhai o'r cyfleoedd chwaraeon gorau yng Nghymru ar gyfer pobl anabl. Mae cyfleoedd mewn clybiau a sesiynau gwahanol yn digwydd o fewn cyfleusterau hamdden Conwy'n rheolaidd. Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd yng Nghonwy: Boccia, Pêl-fasged Cadair Olwyn, Dringo, Nofio, Sgïo, Pêl-droed, Pêl-droed i rai â nam ar y golwg, Therapi Adlamu, Hoci, Tennis, Tennis Cadair Olwyn, Saethyddiaeth, Rhwyfo a Supertots – sesiynau chwarae ac aml-chwaraeon.

Mae nifer o ffyrdd y gallwch gael y diweddaraf am Chwaraeon i Bobl Anabl yng Nghonwy a thu hwnt. Felly i gael gwybod am ddatblygiadau lleol a chenedlaethol; defnyddiwch unrhyw un neu bob un o'r isod:




Gwefan: www.disability-sport-wales.org.uk




Cronfa ddata: Cysylltwch â'r Swyddog Chwaraeon i Bobl Anabl am wybodaeth

Find us on Facebook

facebook.com/disabilitysportconwy

Follow Us On twitter

@DSConwy

**Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd Cymru**

**01492 575593 07733 013004 chwaraeon.anabledd@conwy.gov.uk**

# Canolfan Hamdden Abergele



| Diwrnod | Amser |
| --- | --- |
| Dydd Llun –Dydd Mercher | 07:00-22:00 |
| Dydd Iau | 09:00-22:00 |
| Dydd Gwener | 07:00-22:00 |
| Dydd Sadwrn | 08:00-18:00 |
| Dydd Sul | 09:00-20:00 |

Mae cyfleusterau canolfan hamdden Abergele yn cynnwys pwll nofio, ystafell ffitrwydd, neuadd chwaraeon, a meysydd awyr agored.  Mae'r holl gyfleusterau yn hygyrch ac ar y llawr gwaelod, ac eithrio'r ystafell ffitrwydd y gellir ei chyrraedd drwy ddefnyddio'r lifft.

Mae'r prif bwll yn bwll 4 lôn 25m x 8.5m, gyda dyfnder o 1.0 ar y lleiaf a dyfnder o 1.8 metr ar y mwyaf, tymheredd 29C i 31C. Mae'r pwll yn cael ei ddefnyddio ar gyfer sesiynau cyhoeddus a gwersi nofio.

Mae'r ystafell ffitrwydd gydag ystod o offer, gan gynnwys peiriannau pwysau gyda seddau symudol ac offer MotoMed wedi'i ddylunio i bobl ag MS - cysylltwch â'r ganolfan am ragor o wybodaeth am yr offer.



**Gwybodaeth Gyswllt**
01492 577940

hamdden.abergele.leisure @conwy.gov.uk

Gwasanaeth Text Relay BT
18001 01492 577940

**www.conwy.gov.uk/abergeleleisure**

# Canolfan Chwaraeon Aberconwy



| Diwrnod | Amser |
|---|---|
| Dydd Llun-Dydd Gwener (Amser Tymor) | 18:00-22:00 |
| Dydd Llun-Dydd Gwener (Gwyliau Ysgol) | 10:00-20:00 |




Mae cyfleusterau canolfan Chwaraeon Aberconwy yn cynnwys prif neuadd chwaraeon, campfa, wal ddringo a meysydd awyr agored.

Wal Ddringo – 8 metr o uchder, nid oes hyfforddwr nac offer ar gael yn y ganolfan hon; felly mae angen archebu ac mae angen presenoldeb dringwr cymwys sy'n oedolyn.

**Gwybodaeth Gyswllt**
01492 577925 cyn 6pm
01492 577929 ar ôl 6pm

hamdden.junction.leisure@conwy.gov.uk

Gwasanaeth Text Relay BT
18001 01492 577925

**www.conwy.gov.uk/hamddenaberconwy**

# Canolfan Hamdden Colwyn



| Diwrnod | Amser |
|---|---|
| Dydd Llun – Dydd Gwener | 07:00-22:00 |
| Dydd Sadwrn | 07:00-17:00 |
| Dydd Sul | 08:00-20:00 |




Mae cyfleusterau canolfan hamdden Colwyn yn cynnwys pwll nofio, ystafell ffitrwydd, neuadd chwaraeon, cyrtiau sboncen, cwrt Boccia, meysydd awyr agored a thrac athletau. Mae'r holl gyfleusterau yn hygyrch ac ar y llawr gwaelod.

Prif bwll - 25 metr, 1 metr i 1.8 metr o ddyfnder, tymheredd 29C i 31C.

Man dysgu plant - 10 x 8 metr, dyfnder o 0.7 metr ar y lleiaf, tymheredd  29C i 31C. Mae hwn yn bwll y gellir cerdded i mewn iddo, gyda llethr raddol i gael mynediad at y ddau fan.

Ffoniwch y ganolfan neu edrychwch ar y wefan am amseroedd agor y pwll.

**Gwybodaeth Gyswllt**
01492 577900

hamdden.colwyn.leisure @conwy.gov.uk

Gwasanaeth Text Relay BT
18001 01492 577900

**www.conwy.gov.uk/hamddencolwyn**

# Canolfan Hamdden Creuddyn



| Diwrnod | Amser |
|---|---|
| Dydd Llun – Dydd Iau (Ebrill - Awst) | 17:00-20:00 |
| Dydd Llun (Medi - Mawrth) | 17:00-22:00 |
| Dydd Mawrth – Dydd Gwener (Ebrill – Awst) | 17:00-21:00 |

Mae cyfleusterau canolfan hamdden Creuddyn yn cynnwys neuadd chwaraeon, campfa, caeau pêl-droed awyr agored a chyrtiau pêl-rwyd. Mae pob cyfleuster yn hygyrch ac ar y llawr gwaelod.

Defnyddir canolfan hamdden Creuddyn yn bennaf ar gyfer archebion allanol, ac mae'n gartref clwb Pêl-fasged Cadair Olwyn Taranau Conwy.

**Gwybodaeth Gyswllt**
01492 577918





www.conwy.gov.uk/hamddencreuddyn

# Canolfan Hamdden Dyffryn Conwy



| Diwrnod | Amser |
|---|---|
| Dydd Llun-Dydd Gwener (Amser tymor) | 16:15-22:00 |
| Dydd Llun-Dydd Gwener (Gwyliau Ysgol) | 10:00-22:00 |
| Dydd Sadwrn | 10:00-16:00 |
| Dydd Sul | 10:00-13:00 |




Mae cyfleusterau Canolfan Hamdden Dyffryn Conwy yn cynnwys prif neuadd chwaraeon, campfa, ystafell ffitrwydd, meysydd awyr agored, cyrtiau sboncen a wal ddringo.

Wal Ddringo - 8 medr o uchder, yn bargodi a gyda nodweddion diddorol eraill. Mae'r llwybrau aml-liw yn cael eu newid yn rheolaidd a'u graddio o 4a - 7a, gyda chlogfeini o V0-V3. Mae sesiynau yn hygyrch i bobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl. Mae'r llawr cyntaf yn hygyrch drwy lifft grisiau.

**Gwybodaeth Gyswllt**
01492 577938 / 577939

ffit.conwy.llanrwst @conwy.gov.uk

Gwasanaeth Text Relay BT
18001 01492 577938

**www.conwy.gov.uk/hamddendyffryn**

# Pwll Nofio Llanrwst



**Mae Pwll Nofio Llanrwst yn agored o ddydd Llun i ddydd Sul**
**Cysylltwch â'r ganolfan i wybod pryd mae'r sesiynau nofio cyhoeddus.**




Mae Pwll Nofio Llanrwst yn cynnig mynediad i Bwll Nofio 20m x 7m gyda dyfnder yn amrywio o 1m i 2m.

Sylwer: Mae yna adegau penodol ar gyfer nofio cyhoeddus a sesiynau penodol eraill. Gellir cael hyd i'r wybodaeth hon trwy gysylltu â'r pwll neu ar y cyfeiriad gwe isod.

Mae'r adeilad yn hygyrch o'r maes parcio trwy lethr y tu allan.

**Gwybodaeth Gyswllt**
01492 577932 / 577933

ffit.conwy.llanrwst@conwy.gov.uk

Gwasanaeth Text Relay BT
18001 01492 577932

# Canolfan Hamdden Cyffordd Llandudno




| Diwrnod | Amser |
|---|---|
| Dydd Llun - Dydd Gwener | 07:00-22:00 |
| Dydd Gwener (**o Mai**) | 07.00-21.00 |
| Dydd Sadwrn | 10:00-18:00 |
| Dydd Sadwrn (**o Mai**) | 07:00-16:00 |
| Dydd Sul | 10:00-18:00 |




Mae cyfleusterau Canolfan Hamdden Cyffordd Llandudno yn cynnwys prif neuadd chwaraeon, ystafell ffitrwydd, cyrtiau sboncen a wal ddringo.

Wal Ddringo - 8 medr o uchder, yn bargodi a gyda nodweddion diddorol eraill. Mae'r llwybrau aml-liw yn cael eu newid yn rheolaidd a'u graddio o 4a - 7a, gyda chlogfeini o V0-V3. Mae sesiynau yn hygyrch i bobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl.

Mae crèche ar gael i blant hyd at 5 oed bob dydd Mercher 9.45-12.00 a phob dydd Iau 9.45-10.45; os yw'r rhieni yn dymuno defnyddio'r cyfleusterau.

**Gwybodaeth Gyswllt**
01492 577925

hamdden.junction.leisure@conwy.gov.uk

Gwasanaeth Text Relay BT
18001 01492 577925

**www.conwy.gov.uk/ljlc**

# Canolfan Nofio Llandudno




| Diwrnod | Amser |
|---|---|
| Dydd Llun-Dydd Iau | 06:15-21:30 |
| Dydd Gwener | 06:15-20:30 |
| Dydd Sadwrn | 07:00-16:00 |
| Dydd Sul | 09:00-16:00 |



Mae cyfleusterau canolfan nofio Llandudno yn cynnwys dau bwll nofio ac ystafell ffitrwydd gyda gwahanol ddosbarthiadau wedi'u hamserlennu bob dydd.

Prif Bwll - 8 lôn, 2 fetr yn ei ben dyfnaf ac 1 metr yn y pen bas, tymheredd wedi'i osod ar 28.5C

Pwll Hyfforddi - 20m x 8m, dyfnder cyfnewidiol o 1 metr i 0.75 metr, tymheredd wedi'i osod ar 30.5C

Ystafell Ffitrwydd - Wedi'i leoli ar y llawr cyntaf gyda mynediad lifft.

**Gwybodaeth Gyswllt**
01492 575900

nofio.llandudno.swimming@conwy.gov.uk

Gwasanaeth Text Relay BT
18001 01492 575900

www.conwy.gov.uk/hamddenllandudno

# Canolfan Tennis James Alexander Barr



| Diwrnod | Amser |
|---|---|
| Dydd Llun-Dydd Gwener | 09:00-22:00 |
| Dydd Sadwrn | 10:00-17:00 |
| Dydd Sul | 10:00-17:00 |




Mae Canolfan Tennis James Alexander Barr yn cynnwys 2 gwrt tennis dan do a 4 cwrt tennis awyr agored gyda llifoleuadau. Gellir cyrraedd y cyrtiau tennis awyr agored drwy risiau awyr agored sydd hefyd gyda lifft cadair i bobl anabl gael mynediad.

Mae'r 2 gwrt dan do'n cynnwys lloriau acrylig o safon twrnamaint, wedi'u goleuo gan lifoleuadau mewnol a golau'r haul trwy'r to sy'n lled-dryloyw.

Cyrtiau awyr agored

4 cwrt awyr agored yn cynnwys llifoleuadau, a ffensys uchel i ddiogelu'r cwrt rhag y gwynt.

**Gwybodaeth Gyswllt**
01492 577922

Gwasanaeth Text Relay BT
18001 01492 577922

www.conwy.gov.uk/jabtc

# Canolfan Hamdden John Bright



| Diwrnod | Amser |
|---|---|
| Dydd Llun-Dydd Gwener (Amser tymor) | 17:00-22:00 |
| Dydd Llun-Dydd Gwener (Gwyliau Ysgol) | 10:00-22:00 |
| Dydd Sadwrn a dydd Sul | 10:00-17:00 |

Mae cyfleusterau canolfan hamdden John Bright yn cynnwys neuadd chwaraeon, campfa, cyrtiau sboncen, a meysydd a chyrtiau awyr agored. Mae pob cyfleuster yn hygyrch drwy risiau a lifft. Gellir cyrraedd y meysydd awyr agored drwy lwybr awyr agored.

Mae John Bright yn gartref i nifer o chwaraeon awyr agored, yn ogystal ag amrywiaeth o ddosbarthiadau ffitrwydd sy'n addas i bob gallu.




**Gwybodaeth Gyswllt**
01492 577930

hamdden.jbright.leisure @conwy.gov.uk

Gwasanaeth Text Relay BT
18001 01492 577930

**www.conwy.gov.uk/hamddenjohnbright**

# Eirias



(Amseroedd agor Campfa Codi Pwysau Olympaidd)

| **Diwrnod** | **Amser** |
|---|---|
| Dydd Llun | 07:00-21:00 |
| Dydd Mawrth-Dydd Gwener | 07:00-19:00 |
| Dydd Sadwrn | 09:00-15:00 |
| Dydd Sul | 09:00-17:00 |




Mae cyfleusterau Canolfan Ddigwyddiadau Eirias yn cynnwys Campfa Codi Pwysau Olympaidd, stadiwm awyr agored gyda lifft cadeiriau i gael mynediad at seddi; mae hefyd yn cynnwys cae rygbi a phêl-droed Gradd 'A' a thrac athletau Gradd 'A', a chanolfan dan do amlddefnydd gyda Chaeau 3G a'r opsiwn o lolfa mewn pabell ar gyfer digwyddiadau, fel priodasau, cynadleddau a phartïon.

**Gwybodaeth Gyswllt**
01492 577900

hamdden.colwyn.leisure @conwy.gov.uk

Gwasanaeth Text Relay BT
18001 01492 577900

# Canolfan Hamdden y Morfa



| Diwrnod | Amser |
|---|---|
| Dydd Llun-Dydd Gwener | 16:00-22:00 |
| Dydd Sadwrn a Dydd Sul | Yn amodol ar archebu |




Mae cyfleusterau Canolfan Hamdden y Morfa'n cynnwys prif neuadd chwaraeon, cyrtiau sboncen, wal groesi, llecyn gemau amlddefnydd a meysydd awyr agored.

Mae'r Wal Groesi'n ddelfrydol i blant sydd eisiau meistroli'r grefft o ddringo cyn iddynt symud ymlaen i wal ddringo maint llawn.


**Gwybodaeth gyswllt**
01745 360410

Gwasanaeth Text Relay BT
18001 01745 360410


**www.conwy.gov.uk/hamddenymorfa**

# Dod o hyd i Ganolfan Hamdden

Canolfan Hamdden Abergele Faenol Avenue, Abergele, Conwy, LL22 7HT

---

Canolfan Hamdden Colwyn Parc Eirias, Bae Colwyn, Conwy. LL29 7SP

---

Canolfan Ddigwyddiadau Eirias, Ffordd Eirias, Bae Colwyn, Conwy. LL29 8AD

---

Canolfan Hamdden Creuddyn Derwyn Lane, Bae Penrhyn, Conwy. LL30 3LB

---

Canolfan Hamdden Dyffryn Conwy Ffordd Cae'r Melwr, Llanrwst, Conwy. LL26 0SD

---

Canolfan Hamdden John Bright Maesdu Road, Llandudno, Conwy. LL30 1LF

---

Canolfan Tennis James Alexander Barr Parc Eirias, Bae Colwyn, Conwy. LL29 7SP

---

Canolfan Nofio Llandudno, Mostyn Broadway, Llandudno, Conwy. LL30 1YR

---

Canolfan Hamdden Cyffordd Llandudno Ffordd 6G, Cyffordd Llandudno, Conwy. LL31 9XY

---

Pwll Nofio Llanrwst Heol Watling Llanrwst, Conwy. LL26 0LS

---

Canolfan Chwaraeon Ysgol Aberconwy Morfa Drive, Conwy. LL32 8ED

---

Canolfan Hamdden y Morfa Cader Avenue, Bae Cinmel, Conwy. LL18 5HU